# Rheoli'r berthynas fusnes gyda chleientiaid mewn amgylchedd gwasanaethau ariannol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli perthnasoedd busnes gyda chleientiaid trwy ddefnyddio eich gwybodaeth am y marchnadoedd gwasanaethau ariannol a chynnyrch a gwasanaethau ariannol yn effeithiol. Rhaid i rôl eich swydd olygu eich bod yn delio'n uniongyrchol gyda chleientiaid, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. P'un a yw eich rôl yn cynnwys cyfrifoldebau goruchwylio neu reoli neu beidio, bydd disgwyl i chi dderbyn cyfrifoldeb am yr adnoddau a'r systemau rydych chi'n eu defnyddio sy'n cynnal y gwasanaeth rydych chi'n ei roi. Mae angen i chi ddefnyddio eich gwybodaeth am gynnyrch a gwasanaethau ariannol a gweithrediad y farchnad fuddsoddi i gynnal a gwella llif busnes gwasanaethau ariannol. Yn eich gwaith mae rhaid i chi fod yn effro i ymateb cleientiaid i'r cynnyrch neu'r gwasanaethau ariannol rydych chi'n eu cynnig, a gwybod sut mae modd eu defnyddio i wella'r gwasanaeth rydych chi'n ei roi.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Sicrhau eich bod yn diweddaru eich gwybodaeth am y farchnad gwasanaethau ariannol a chynnyrch a gwasanaethau buddsoddi eich sefydliad yn gyson
2. Trefnu eich gwaith er mwyn rhoi'r sylw angenrheidiol i gleientiaid, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Defnyddio eich gwybodaeth am y farchnad gwasanaethau ariannol a'r cynnyrch neu'r gwasanaethau ariannol a gynigir gan eich sefydliadau i reoli disgwyliadau cleientiaid
4. Rheoli'r berthynas â'ch cleientiaid i wella llif busnes gwasanaethau ariannol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Ymateb i lwyth gwaith a sefyllfaoedd annisgwyl yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Cyflawni disgwyliadau eich cleientiaid, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Ymateb i'ch cleientiaid pan fyddant yn trafod cynnyrch neu wasanaethau ariannol rydych chi'n eu cynnig, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Rhybuddio eraill ynghylch unrhyw sylwadau neu arsylwadau a wnaed gan eich cleientiaid ynghylch cynnyrch neu wasanaethau ariannol rydych chi'n eu cynnig, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Cadw cofnodion cywir wedi'u diweddaru o'r holl gamau a gymerwyd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y fframwaith rheoliadol ar gyfer rhyngweithio â chleientiaid ac effaith hynny ar eich rôl gwaith chithau
2. Strwythur y farchnad fuddsoddi a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni
3. Sut mae sefydlu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda chleientiaid, gan gynnwys defnyddio sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu a chysyniadau darparu gwasanaeth o ansawdd
4. Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer sefyllfaoedd annisgwyl a'ch rôl chi oddi mewn iddynt
5. Pwysigrwydd meddu ar wybodaeth ddibynadwy a chyflym ar gyfer eich cleientiaid a'ch sefydliad
6. Gweithdrefnau a systemau sefydliadol ar gyfer darparu gwasanaeth i gwsmeriaid
7. Sut mae adnabod adborth defnyddiol gan gleientiaid a phenderfynu ar sail pa adborth y dylid gweithredu
8. Sut mae cyfleu adborth cleientiaid i eraill
9. Gweithdrefnau a systemau sefydliadol ar gyfer cofnodi, storio, adalw a chyflenwi gwybodaeth cleientiaid.
10. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn dangos dealltwriaeth i gwsmeriaid ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
2. Rydych yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol ar gyfer gwahanol bobl a sefyllfaoedd
3. Rydych yn ceisio deall anghenion a symbyliad pobl
4. Rydych yn nodi goblygiadau a chanlyniadau sefyllfaoedd
5. Rydych yn blaenoriaethu amcanion ac yn cynllunio gwaith i wneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau

FSPIO15

Rheoli'r berthynas fusnes gyda chleientiaid mewn amgylchedd gwasanaethau ariannol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPIO15 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Buddsoddi |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithrediadau Buddsoddi; gweinyddiaeth buddsoddiadau; y farchnad fuddsoddi; data buddsoddiadau; data'r farchnad; buddsoddiadau; perfformiad buddsoddiadau; perfformiad y farchnad; asedau; cwmni buddsoddi; rheoli cronfeydd; gwasanaethau ariannol; daliadau ariannol; cydymffurfio; buddsoddwyr |